Hawdd ei Ddeall


# Pecyn Cymorth Mynediad i Wleidyddiaeth

## Sefyll fel ymgeisydd annibynnol

disability wales
anabledd cymru

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pecyn Cymorth Mynediad i Wleidyddiaeth: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol.**




Mae'r adran yma yn rhoi gwybodaeth i chi am fod yn **ymgeisydd annibynnol** – rhywun sydd ddim yn perthyn i blaid wleidyddol.




Efallai y byddwch chi angen help  i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

# Cynnwys


Sefyll fel ymgeisydd annibynnol .......... 4

Edrych I weld os ydych chi'n gallu bod yn ymgeisydd annibynnol .......... 7

Cysylltu â'ch Swyddog Canlyniadau Lleol .......... 10

Llenwi ffurflenni enwebu .......... 12

Talu blaendal .......... 13

Dewis Asiant Etholiadol .......... 14

Asiantau eraill .......... 17

Rhedeg eich Ymgyrch .......... 18

Ar ôl yr etholiad .......... 20

Mwy o wybodaeth .......... 23

# Sefyll fel ymgeisydd annibynnol



Mae ymgeiswyr annibynnol yn bobl sydd ddim yn perthyn i blaid wleidyddol.

Efallai eich bod chi eisiau bod yn Ymgeisydd Annibynnol am nifer o resymau:




- Does dim un plaid yn cyfateb I beth rydych chi'n gredu.




- Mae'r rhan fwyaf o Gynghorwyr Tref a Chymuned yn annibynnol.



- Rydych chi eisiau gweithio ar fater penodol.




- Rydych chi eisiau’r rhyddid i sefyll ar gyfer etholiad heb gael cyfyngiadau ar beth rydych chi’n gallu ei ddweud neu weithio arno.




Mae’r wybodaeth yn y pecyn cymorth yma yn dal i fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr annibynnol.

**Fe fydd angen i chi:**




- Edrych ar y rheolau i wneud yn siŵr eich bod yn cael sefyll fel Ymgeisydd Annibynnol.



- Cysylltu gyda'ch cyngor lleol.



- Llenwi'r ffurflenni cywir a'u hanfon erbyn y dyddiad cau.



- Dewis asiant etholiadol - i'ch helpu i ymgyrchu o fewn y rheolau.



- Anfon eich costau wedyn.

# Edrych I weld os ydych chi'n gallu bod yn ymgeisydd annibynnol

**Rhaid i chi:**




- Bod yn 18 oed neu'n hŷn.



- Bod yn ddinesydd y DU, Gwyddelig neu'r Gymanwlad.



Ar gyfer etholiadau cynghorau lleol, mae angen i chi hefyd:



- Byw yn yr ardal.



- Neu weithio yn yr ardal.



- Neu fod yn berchen ar neu yn rhentu eiddo yno.



- Neu fod wedi cofrestru i bleidleisio yno.




Rhaid i chi beidio â chael eich gwahardd i sefyll yn ôl y gyfraith.



Er enghraifft, oherwydd eich bod wedi cael eich arestio am drosedd ddifrifol.



Neu gael swydd benodol - fel barnwr neu swyddog heddlu.

# Cysylltu â’ch Swyddog Canlyniadau Lleol



Mae gan bob cyngor **Swyddog Canlyniadau Lleol**.



Dyma berson sy’n gyfrifol am wneud yn siŵr bod etholiadau yn eich ardal yn cael eu rhedeg yn iawn.



Fe fyddan nhw yn:

- Rhoi union ddyddiadau cau a ffurflenni i chi.
- Rhoi cyngor defnyddiol.
- Edrych ar eich gwaith papur cyn i chi ei anfon i mewn.



Mae dyddiadau cau yn llym.



Y dyddiad cau ar gyfer anfon eich ffurflenni ydy 19 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.



Os byddwch chi'n colli'r dyddiad cau, dydych chi ddim yn gallu bod yn ymgeisydd.

# Llenwi ffurflenni enwebu



**Rhaid i chi lenwi ac anfon:**

- Ffurflen enwebu – dyma enw'r ffurflen  mae'n rhaid i chi ei llenwi i fod yn ymgeisydd.

- Ffurflen cyfeiriad cartref.



Rhaid i chi lofnodi'r ffurflen enwebu.



Rhaid i rywun eich gweld chi'n llofnodi'r ffurflen.

# Talu blaendal



- Ar gyfer etholiadau cynghorau lleol yng Nghymru, dydych chi ddim fel arfer yn talu blaendal.



- Ar gyfer etholiad Senedd y DU, mae'n rhaid i chi dalu blaendal o £500.



- Rydych chi'n cael eich blaendal yn ôl os ydych chi'n cael cyfran o 5% o'r pleidleisiau. Mae 5% yn meddwl o leiaf 5 ym mhob 100 pleidlais.

**Beth maen nhw’n ei wneud:**




- Rheoli eich ymgyrch a gwneud yn siŵr ei bod yn dilyn rheolau a chyfreithiau.



- Rheoli gwariant.



- Delio â rhoddion a gwaith papur.

**Pwysig:**




- Rhaid i chi gael Asiant Etholiadol yn ôl y gyfraith.



- Rydych chi'n gallu bod yn Asiant Etholiadol eich hun.




Rhaid i chi roi enw a chyfeiriad eich Asiantau Etholiadol.



Dyma'ch dewis chi. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw.



Fe ddylen nhw fod yn drefnus ac heb fod wedi cael eu gwahardd rhag bod yn asiant.



Os na fyddwch chi’n dewis un, fe fyddwch chi’n dod yn Asiant Etholiadol eich hun.

# Asiantau eraill

Rydych chi hefyd yn gallu dewis:




- Asiantau pleidleisio – maen nhw'n gwylio gorsafoedd pleidleisio ac yn gwneud yn siŵr bod popeth yn cael ei wneud yn iawn yno.



- Asiantau cyfrif – maen nhw'n gwylio pleidleisiau'n cael eu cyfrif.



Does dim rhaid i chi gael y rhain, ond maen nhw'n ddefnyddiol.

Rydych chi'n gallu:



- Cyflwyno taflenni.



- Curo ar ddrysau.



- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.



- Cynnal a mynd i gyfarfodydd.

Cofiwch:




- Mae yna reolau llym am faint rydych chi'n gallu ei wario ar eich ymgyrch.




- Dim ond rhoddion sy'n dilyn y rheolau rydych chi;n gallu eu defnyddio.



- Rhaid i chi gadw cofnod o'r holl arian rydych chi wedi'i wario ar eich ymgyrch.

# Ar ôl yr etholiad

**Rhaid i chi:**



- Anfon adroddiad am faint o arian wnaethoch chi wario ar eich ymgyrch.




- Cynnwys derbynebau.




- Cynnwys gwybodaeth am y rhoddion rydych chi wedi eu cael.




Rhaid i chi wneud hyn yn ôl y gyfraith.

Awgrymiadau allweddol:



- Mae'r dyddiadau cau a'r ffurflenni yn cael eu pennu gan Swyddog Canlyniadau eich cyngor lleol.



- Fe fydd llawer o gynghorau yn edrych ar eich ffurflenni cyn i chi eu hanfon i mewn.



- Rydych chi'n gallu cael eich rhestru ar bapurau pleidleisio yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddau.

Cyngor ychwanegol:



- Dechreuwch yn gynnar – mae gwaith a ffurflenni ymgyrchu yn gallu cymryd llawer o amser.



- Mae bod yn Asiant Etholiadol eich hun yn haws ar gyfer ymgyrchoedd bach.



- Edrychwch dros eich ffurflenni bob amser – fe fydd camgymeriadau ar eich ffurflenni yn eich stopio rhag sefyll fel ymgeisydd.

# Mwy o wybodaeth

disability wales
anabledd cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Kat Watkins**, Swyddog Prosiect Mynediad at Wleidyddiaeth:



**Gwefan:**

disabilitywales.org/projects/access-to-politics/cy



**E-bost:**

kat.watkins@disabilitywales.org

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.